

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	19 Medi 2023
Aelod / Swyddog Arweiniol	Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol
Awdur yr adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid
Teitl	Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2022/23 (Atodiad 1)

1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Mae'r adroddiad yn sôn am weithgaredd buddsoddi a benthyg y Cyngor yn ystod 2022/23. Mae hefyd yn rhoi manylion ar yr hinsawdd economaidd yn ystod y cyfnod ac yn dangos sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i Ddangosyddion Darbodus.
- 1.2 Mae'r term 'rheoli trysorlys' yn cynnwys rheoli benthyciadau, buddsoddiadau a llif arian y Cyngor. Pob blwyddyn mae oddeutu £0.5 biliwn yn mynd drwy gyfrifon banc y Cyngor. Roedd y benthyciad oedd gan y Cyngor heb ei dalu ar 31 Mawrth 2023 yn £261.5 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 4.15%. Roedd ganddo hefyd £24.2 miliwn mewn buddsoddiadau ar gyfradd gyfartalog o 3.41%.

2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Prif ddiben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am berfformiad dull rheoli'r trysorlys ac i ddangos cydymffurfiaeth â therfynau'r trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn 2022/23.

3 Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod aelodau'n nodi perfformiad swyddogaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2022/23 a'i gydymffurfiaeth â'r Dangosyddion Darbodus gofynnol, fel yr adroddwyd yn adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol 2022/23 (Atodiad 1).

- 3.2 Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 3) fel rhan o'i ystyriaethau.

4 Manylion yr adroddiad

- 4.1 Mae'r adroddiad yn nodi manylion gweithgareddau rheoli trysorlys y Cyngor ac yn darparu trosolwg o'r cefndir economaidd ar gyfer y flwyddyn. Mae'r adroddiad hefyd yn delio â goblygiadau risg penderfyniadau a thrafodion y trysorlys, ac yn nodi cydymffurfiaeth â therfynau'r trysorlys a Dangosyddion Darbodus.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Mae penderfyniadau buddsoddi a benthycu da yn caniatáu i'r Cyngor roi adnoddau ychwanegol i wasanaethau eraill y Cyngor.

6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Amherthnasol.

7 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

- 7.1 Dylai cynllunio ariannol a gwneud penderfyniadau sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac, yn benodol, ystyriaeth briodol i effaith hirdymor penderfyniadau ariannol, gan gynnwys y cyfnod ad-dalu a chostau oes gyfan penderfyniadau buddsoddi cyfalaf, cynigion cyllideb â'u heffaith wedi eu hasesu'n briodol a strategaethau dyled a buddsoddiad hirdymor (rheoli trysorlys). Mae egwyddorion pwyll, fforddiadwyedd a chynaliadwyedd eisoes wedi'u cynnwys o fewn gofynion y Cod Darbodus a dylent fod yn sail i gynllunio ariannol a gwneud penderfyniadau.
- 7.2 Yng nghyd-destun rheoli trysorlys, mae'r gofynion presennol i asesu ac adrodd ar ganlyniadau ariannol hirdymor penderfyniadau buddsoddi a benthycu, gan ddefnyddio dangosyddion darbodus a chynllunio dyled hirdymor, yn cefnogi nodau cynaliadwyedd y Ddeddf Llesiant.
- 7.3 Mae'r adroddiad ar yr Asesiad o Effaith ar Les wedi ei gynnwys yn Atodiad 2 sy'n dangos sut mae strategaeth Rheoli Trysorlys effeithlon yn hyrwyddo nodau lles y Ddeddf.

8 Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1 Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â'i ymgynghorwyr trysorlys, Arlingclose Ltd.
- 8.2 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau Rheoli Trysorlys y flwyddyn ac wedi adolygu'r adroddiad hwn cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet.

9 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1 Mae rheoli trysorlys yn golygu gofalu am symiau sylweddol o arian parod, felly mae'n rhan hanfodol o waith y Cyngor. Mae'n gofyn am strategaeth gadarn a rheolaethau priodol i ddiogelu arian y Cyngor, er mwyn sicrhau bod dyledion yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn ddoeth a bod enillion rhesymol ar fuddsoddiadau.

10 Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1 Mae Rheoli Trysorlys ynddo'i hun yn risg, ond mae'r Cyngor yn monitro ac yn rheoli'r risgiau hyn fel yr amlinellir yn y prif adroddiad. Fodd bynnag, mae'n amhosibl cael gwared ar y risgiau hyn yn gyfan gwbl. Caiff strategaeth a gweithdrefnau rheoli trysorlys y Cyngor eu harchwilio'n flynyddol ac mae adolygiad yr archwiliad mewnol diwethaf yn gadarnhaol heb unrhyw fater sylweddol yn codi.

11 Pŵer i wneud y Penderfyniad

- 11.1 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli Trysorlys sy'n penderfynu ar y gofyniad i'r Cabinet dderbyn adroddiad blynyddol ar weithgareddau'r trysorlys ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.